Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4916A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am yr adroddiad hwn | 4 |
| Ffeithiau allweddol | 5 |
| Canfyddiadau allweddol | 7 |
| Argymhellion | 9 |
| Adroddiad manwl | |
| Trefniadau cynllunio | 12 |
| Defnyddio gwasanaethau | 14 |
| Trefniadau craffu a monitro | 28 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – dulliau archwilio | 34 |
| Atodiad 2 – meini prawf archwilio | 37 |
| Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr | 41 |

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau adolygiad 2024 yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith yw ail gam rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sawl elfen o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddir y cam cyntaf, a archwiliodd y broses o gynllunio i ryddhau cleifion ac effaith y llif cleifion ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ar wahân.

2 Mae ein dull gweithredu yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, lle mae angen i lawer o wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng a sicrhau bod y system ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Rhaglen Chwe Nod) Llywodraeth Cymru a lansiwyd yn 2021, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru yn dal i fod o dan bwysau sylweddol. O dan fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd o dan fonitro uwch[1] ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â gofal brys a gofal mewn argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng y Bwrdd Iechyd, er mwyn lleihau pwysau diangen ar y system. Fe'i gwnaed er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.

4 Gwnaethom ymgymryd â'n gwaith rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2024, gyda dadansoddiad data arall ym mis Mawrth 2025. Crynhoir y dulliau archwilio a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiadau 1 a 2**.

[1] O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod perfformiad pob bwrdd iechyd. Mae pum lefel uwchgyfeirio: trefniadau arferol, maes pryder, monitro uwch, ymyrraeth wedi ei thargedu, a mesurau arbennig.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | |
|---|---|
| **629** | Nifer yr apwyntiadau brys ac acíwt gyda meddygon teulu[2] sydd ar gael fesul diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Medi 2024 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 731. Mae hyn yn ostyngiad o 31.6% ers mis Ebrill 2022. |
| **1,015** | Nifer y cysylltiadau â meddygon teulu y tu allan i oriau fesul mis fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Mehefin 2024 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 973. |
| **266** | Nifer y cysylltiadau mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth a oedd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Tachwedd 2024, o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 447. |

| Gwasanaethau Ambiwlans | |
|---|---|
| **163%** | Y cynnydd mewn galwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 178%. |
| **53%** | Y galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Chwefror 2025, o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 51%, a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 24% ers mis Chwefror 2019. |
| **12%** | Nifer y cleifion a drosglwyddwyd o'r criwiau ambiwlans i'r adran achosion brys o fewn 15 munud i gyrraedd ym mis Chwefror 2025, o'u cymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 15%, a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 16% ers mis Chwefror 2019. |

[2] Diffinnir apwyntiadau brys ac acíwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu acíwt sydd wedi digwydd dros y tymor byr.

| Gwasanaethau Ysbyty | |
| --- | --- |
| 2% | Y cynnydd yn y nifer a oedd yn bresennol yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025, o'u cymharu â'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru, sef 1%. |
| 1,109 | Nifer y bobl a arhosodd yn hwy na 12 awr yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2025. Mae hyn yn gynnydd o 59% ers mis Medi 2019. |
| 04:32 | Yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 5 awr ac 31 munud. Mae hyn yn gynnydd o 39 munud ers mis Chwefror 2019. |
| 226 | Y nifer a oedd yn bresennol mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Chwefror 2025 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 233. |

| Cyllid | |
| --- | --- |
| £77.2m | Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cyfnod 2022-2025 er mwyn adennill gofal arfaethedig a gofal brys a gofal mewn argyfwng yn ychwanegol at gyllid craidd y Bwrdd Iechyd. |
| £5.7m | Arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24, a 2024-25 i gefnogi'r broses o gyflawni uchelgeisiau Rhaglen Chwe Nod. |

# Negeseuon allweddol

## Casgliad cyffredinol

5 Ar y cyfan, canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn newid ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng i fodloni'r galw yn well, a gefnogir gan gynlluniau a goruchwyliaeth gref. Er bod newidiadau yn arwain at welliannau mewn rhai meysydd, mae angen gwneud gwell defnydd o ddewisiadau amgen eraill i'w Adran Achosion Brys ac ymgysylltu'n gryfach â chleifion a'r staff i lywio'r cynlluniau.**

## Canfyddiadau allweddol

### Trefniadau cynllunio

6 Canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau manwl a strwythuredig ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys datblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n cynnig darpariaeth arall i'r Adran Achosion Brys os yw hynny'n briodol ar gyfer anghenion cleifion.

7 Mae'r cynlluniau yn dangos dealltwriaeth dda o'r heriau allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Maent yn cael eu llywio gan ddata ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gellid darparu mwy o fanylion mewn cynlluniau ynghylch sut maent yn lliniaru ac yn monitro risgiau yn ogystal â'r lefelau o adnoddau a staffio sydd eu hangen i gyflawni Rhaglen Chwe Nod.

### Defnyddio gwasanaethau

8 Canfuom fod amrywiaeth o weithgareddau i gyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er gwaethaf hyn, mae sylwadau yn awgrymu bod cyfleoedd eraill i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau, gan gynnwys sicrhau bod gwefannau meddygon teulu a deintyddol yn darparu cyfeiriadau clir at wasanaethau gofal brys pan fo angen.

9 Mae enghreifftiau da o ymgysylltu â'r staff i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau, a gefnogir gan y model llywio llif. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn datblygu ei gyfeiriadur gwasanaethau, ac wrth iddo wneud cynnydd â'r gwaith hwn, dylai sicrhau bod trefniadau effeithiol i sicrhau bod y cyfeiriadur yn parhau i fod yn gyfredol ac yn hygyrch i staff allweddol, gan gynnwys staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal. Clywsom hefyd fod staff mewn gofal eilaidd yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu â meddygon teulu mewn modd amserol oherwydd eu bod yn gorfod cael mynediad at y llinell ffôn cyhoeddus.

10 Mae gwasanaethau wedi eu datblygu er mwyn helpu i reoli'r galw, gan gynnwys rhai fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i nodi dulliau atgyfeirio eraill a allai ffrydio cleifion i'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt mewn modd mwy effeithlon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'i Unedau Mân Anafiadau, ond mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau y defnyddir unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys gymaint â phosibl y mae ganddynt y gyfradd presenoldeb isaf ar gyfer y darpariaethau hyn ledled Cymru.

11 Er gwaethaf rhai o'r newidiadau diweddar a wnaed gan y Bwrdd Iechyd, mae data yn dangos ei fod yn parhau i gael trafferth bodloni'r galw. Mae oediadau trosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel, ac mae'r amseroedd aros yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad o'i gymharu ag arhosiad 12 awr yn gwella ac mae'r gyfradd rhyddhau cleifion o'r Adran Achosion Brys yn gymharol uchel.

## Trefniadau craffu a monitro

12 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o ddata i fonitro'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, ond mae angen mwy o waith i ddadansoddi'r data hyn i lywio cynllunio strategol, yn ogystal â sicrhau bod arferion gwerthuso ar gyfer monitro buddsoddiadau prosiectau yn gyson. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd yn casglu sylwadau cleifion, nid yw'n glir sut mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ei waith cynllunio strategol, ac ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwrando ar ei staff ynghylch cynnal gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

13 Goruchwylir a chreffir yn effeithiol ar gynlluniau a'r perfformiad ar lefel corfforaethol a gweithredol. Mae Bwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn darparu gwaith craffu a sicrwydd effeithiol ar ffrydiau gwaith y chwe nod yn ogystal â chynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng a'r gwariant cysylltiedig. Gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei adroddiadau ar y defnydd o gyllid ymhellach drwy ddarparu canllawiau i staff ar sut i werthuso prosiectau a ariennir trwy arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

# Argymhellion

14 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| Argymhellion |
| --- |
| **Rheoli Risgiau mewn cynlluniau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau, yn y dyfodol, fod gan bob risg a nodir yng Nghynlluniau Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng berchennog risg clir, a bod gan y camau lliniaru ddyddiadau targed clir (**Arddangosyn 2**). |
| **Cyllido Rhaglen Chwe Nod**<br>A2 Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â Chwe Nod yn barhaus, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Hefyd, dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod nodi unrhyw anghenion cyllido y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol cyfredol **(Arddangosyn 2)**. |
| **Cyfeiriadau cyhoeddus meddygon teulu a deintyddol drwy wefannau**<br>A3 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r galw am ofal brys, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod practisau meddygon teulu a deintyddol yn darparu gwybodaeth clir a hygyrch am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau a chynnal archwiliad yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth **(Paragraff 28)**. |
| **Cyfathrebu ac ymgysylltu â chleifion a gofalwyr**<br>A4 Er mwyn cryfhau mynediad at wasanaethau allweddol yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng a'r ddealltwriaeth ohonynt, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r broses cyfathrebu ac atgyfeirio rhwng gofal eilaidd a meddygon teulu er mwyn nodi sianel mwy effeithlon o ran amser i drafod achosion cleifion (**Paragraff 36**). |

**Argymhellion**

**Cyfeiriadur gwasanaethau**

A5 Er mwyn sicrhau bod staff iechyd a gofal yn gallu cyfeirio pobl at y gwasanaethau brys a gofal mewn argyfwng yn ddigonol, dylai'r Bwrdd Iechyd:

5.1 Sefydlu dulliau i sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn parhau i fod yn gyfredol, sy'n cynnwys nodi swyddog sy'n bennaf gyfrifol am y dasg hon.

5.2 Sefydlu dulliau i rannu'r Cyfeiriadur Gwasanaethau â staff cymunedol a chartrefi gofal a ddylai gynnwys llwybrau atgyfeirio i gefnogi eu carfan o gleifion (**Paragraff 37**)

**Llwybrau atgyfeirio**

A6 Er mwyn gwella mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng eraill priodol a'r defnydd o atgyfeiriadau atynt, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda staff allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ddatblygu dulliau atgyfeirio sy'n glir, wedi eu cyfathrebu'n dda ac yn rhwydd cael gafael arnynt **(paragraff 39)**.

**Defnyddio sylwadau cleifion**

A7 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar sylwadau cleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ddangos sut maent wedi ystyried sylwadau cleifion **(Arddangosyn 9)**.

**Sylwadau staff am newidiadau i wasanaethau**

A8 Er mwyn nodi gwendidau neu ddysg bosibl mewn cysylltiad â newidiadau diweddar i'w wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno dulliau rheolaidd ar gyfer sylwadau staff. Dylai hyn gynnwys sylwadau gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**).

**Cynrychiolaeth gofal sylfaenol ym Mwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng**

A9 Er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth eang o bwysau galw a rhyngweithio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai sicrhau y cynrychiolir gofal sylfaenol ym Mwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng **(Arddangosyn 10)**.

**Argymhellion**

**Gwerthuso manteision prosiect**

A10 Er mwyn cryfhau ei adroddiadau am y manteision a gyflawnwyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a'r defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau i wasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 10)**.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau cynllunio

15 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o gynlluniau:

- yn cael eu llywio gan wybodaeth perthnasol a chyfredol
- yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng
- yn alinio â gofynion Rhaglen Chwe Nod, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol eraill yn gweithio
- yn nodi'r lefelau cyfredol a'r lefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir.

16 Gwnaethom adolygu Chwe Nod ar gyfer Cynllun Cyflawni Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Bwrdd Iechyd (2024-25) y Bwrdd Iechyd ac adrannau perthnasol o'i Gynllun Blynyddol: Bwriad tair blynedd (2024-27).

17 Canfuom fod **cynlluniau cryf i reoli'r galw, gan gynnwys cyflwyno modelau gwasanaeth newydd, fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy**.

18 Crynhoir y canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: dull o gynllunio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r cynlluniau yn cael eu llywio gan wybodaeth perthnasol a chyfredol? | **Ydynt** | Mae cynlluniau y Bwrdd Iechyd wedi eu strwythuro'n dda ac yn gynhwysfawr ac mae aliniad clir rhwng eu huchelgeisiau.<br>Mae cynlluniau yn cael eu llywio gan wybodaeth perthnasol a chyfredol, gan gynnwys data ystyrlon fel mesurau perfformiad sylfaenol ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau Gweinidogol a lleol allweddol. |
| A yw'r cynlluniau yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol | **Yn rhannol** | Nodir risgiau allweddol yn y cynllun, yn enwedig risgiau a allai effeithio ar y broses o gyflawni pob ffrwd waith sy'n tanategu Rhaglen Chwe Nod. Mae risgiau'n cynnwys |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng? | | cynnydd yn y galw y tu hwnt i'r disgwyliadau, risgiau sy'n gysylltiedig â recriwtio, a risgiau ariannol.<br>Er bod camau lliniaru wedi eu nodi ar gyfer rhai o'r risgiau, nid oes camau gweithredu wedi eu nodi ar gyfer eraill, ac felly nid yw'r cynllun yn darparu sicrwydd digonol y byddant yn cael eu datrys. Mae swyddogion cyfrifol wedi eu neilltuo ar gyfer pob un o'r Chwe Nod, ond nid oes dyddiadau targed clir ar gyfer y camau lliniaru **(Argymhelliad 1)**. |
| A yw'r cynlluniau yn alinio â gofynion Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol eraill yn gweithio? | **Ydynt** | Mae'r cynlluniau yn nodi manylion am fentrau presennol a newydd/modelau gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Chwe Nod. O dan bob Nod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu manylion ynghylch sawl ffrwd waith, a datblygu un pwynt mynediad yw prif bwyslais Nod 2, a gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, a Gwasanaeth Gofal Brys, gweithredu Gwasanaeth Gofal Brys 24/7 a Datblygiad Clwstwr Cyflym yw'r meysydd pwyslais ar gyfer Nod 3. |
| A yw'r cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfredol a'r lefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir? | **Yn rhannol** | Dyrannwyd £2.96 miliwn i'r Bwrdd Iechyd i gefnogi'r broses o gyflawni Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn 2024-25. Mae cynlluniau yn darparu costau cysylltiedig â sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddyrannu rhwng y tri maes angenrheidiol. Mae'r gwariant a ragwelir o fewn cyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru, gyda £2.8 miliwn o'r arian yn cael ei ddyrannu i staffio, ac mae nodyn yn nodi y bydd y Bwrdd Iechyd yn talu am unrhyw orwariant yn 2024-25. Mae ffurflen monitro misol y Bwrdd Iechyd ar gyfer mis 12, 2024-25, yn dangos bod gwariant ar y trywydd iawn.<br>Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys rhywfaint o fanylion sy'n ymwneud â gwariant ar |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | fentrau/rhaglenni eraill a fyddai'n gwella'r ymhellach y broses o gyflawni Amcanion y Chwe Nod, gan gynnwys datblygu e-brysbennu o Gronfa Arloesi y Chwe Nod a Theleofal rhanbarthol ac Ymateb i Fregusrwydd Acíwt o gronfa Further Faster.<br>Fodd bynnag, gellid darparu mwy o fanylion yn y cynllun ynghylch y lefelau adnoddau a staffio sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen, yn ogystal â lle y bydd arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu, os bydd gorwariant yn digwydd. Nid yw'r cynlluniau yn nodi unrhyw anghenion cyllido na staffio y tu hwnt i fis Mawrth 2025 ar gyfer y mentrau **(Argymhelliad 2).** |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Defnyddio gwasanaethau

19 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i annog a galluogi pobl i gael gafael ar y gofal cywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, ac a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cyfeirio yn effeithiol gleifion at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau
- staff sydd â gwybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion, ac sy'n gallu cyfeirio/atgyfeirio cleifion at wasanaethau amgen, pan fo hynny'n briodol
- newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau sy'n arwain at welliannau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

20 Canfuom **er gwaethaf gweithgarwch sylweddol gan y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu â chleifion a staff ar sut i gael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae sylwadau a data staff yn awgrymu bod lle i gryfhau ymwybyddiaeth ymhellach a'r defnydd o rai gwasanaethau.**

## Cyfeirio at wasanaethau i'r cyhoedd

21 Canfuom fod **amrywiaeth o weithgareddau i gyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, fodd bynnag, mae sylwadau'n awgrymu bod cyfleoedd eraill i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau.**

### Cynlluniau cyfathrebu

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu 2023-26 ac mae'n cryfhau ei drefniadau er mwyn gwrando ar gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Caiff nodau'r strategaeth eu halinio yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ac un o'r amcanion allanol allweddol ynddo yw cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, cleifion a rhanddeiliaid ynghylch 'Cael Gafael ar Wasanaethau Gofal Iechyd.' Er bod adran o'r strategaeth yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gellid cynnwys rhagor o fanylion am yr ymgyrchoedd/gweithgareddau y mae'n rhaid eu defnyddio i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a'u hysbysu o'r gwasanaethau sydd ar gael, sut i gael gafael arnynt, yn ogystal â rhagor o wybodaeth sy'n esbonio gwasanaethau eraill i'r Adran Achosion Brys.

23 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau i roi gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd am ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n ymwneud â phwysau y gaeaf, 111 Pwyso 2[3], gwasanaeth 'Meddyliwch 111 yn Gyntaf' ac ymgyrch genedlaethol 'Helpwch ni i'ch helpu chi'. Mae dulliau eraill ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys fideos, taflenni gwybodaeth, posteri, hysbyslenni a thrwy sianeli rhanddeiliaid.

### Gwybodaeth gyhoeddus

24 Efallai mai'r pwynt galw cyntaf ar gyfer y mwyafrif o'r cleifion sydd ag angen brys yw eu meddyg teulu, ac mae ein hadolygiad o'r data sydd ar gael yn dangos, rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024, fod practisau y Bwrdd Iechyd wedi darparu lefel is o apwyntiadau brys ac acíwt fesul diwrnod (727 o apwyntiadau y diwrnod) na chyfartaledd Cymru (809 apwyntiad y diwrnod) fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu. Mae'r lefel hefyd wedi bod yn gostwng dros amser, o 774 o apwyntiadau y diwrnod ym mis Hydref 2023 i 629 ym mis Medi 2024, sef yr isaf yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, dim ond yn ystod y dydd y mae'r rhain ar gael, ac ar adegau pan fo'r galw'n uchel a thu

[3] Gwasanaeth brys sy'n cynnig cyngor asesu a chyfeirio i unrhyw un sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu sydd angen cymorth i reoli eu symptomau yw 111 Pwyso 2.

allan i oriau, mae angen cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill a allai fod mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion gofal brys.

25 Canfu ein hadolygiad o wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd eu bod yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd am sut i gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys sut i gofrestru a chael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol a swyddogaethau gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae tudalennau gwe hefyd yn canolbwyntio ar wasanaeth GIG 111, darpariaeth y tu allan i oriau, y cynllun anhwylderau cyffredin a Chanllaw Iechyd Gwent sy'n rhoi cyngor i gleifion ar ddewis y gwasanaeth cywir ar gyfer eu hanghenion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'i wasanaethau fferylliaeth, gan gynnwys fideos sy'n esbonio'r gwahanol swyddogaethau swyddi.

26 Gwnaethom ystyried hefyd yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd drwy feddygon teulu a phractisau deintyddol, er mwyn asesu a oedd cyfeiriadau clir ar gyfer cleifion pe byddai ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi canlyniadau y gwaith hwn, a adolygodd wefannau a negeseuon peiriant ateb ffôn y tu allan i oriau 17 practis meddyg teulu ac 18 practis deintyddol[4].

**Arddangosyn 3: canlyniadau yr adolygiad o wybodaeth meddygon teulu a phractisau deintyddol (Hydref 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| y ganran o wefannau y practisiau meddyg teulu yr oedd ganddynt gyfeiriadau clir | 41.2 | 56.8 |
| y ganran o'r practisiau meddyg teulu yr oedd ganddynt negeseuon peiriant ateb ffôn â chyfeiriadau clir | 94.1 | 89.5 |
| y ganran o wefannau y practisiau deintyddol yr oedd ganddynt gyfeiriadau clir | 11.1 | 36.7 |
| y ganran o'r practisiau deintyddol yr oedd ganddynt negeseuon peiriant ateb ffôn â chyfeiriadau clir | 100 | 86.7 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

27 Roedd bron pob llinell ffôn meddyg teulu a deintyddol a samplwyd ar draws y Bwrdd Iechyd yn darparu cyfeiriadau clir at wasanaethau gofal brys neu ofal argyfwng y tu allan i oriau. Mae hyn yn well na'r sefyllfa yng Nghymru ar gyfer y ddau wasanaeth. Fodd bynnag, mae cyfeiriadau clir ar wefannau practisiau meddyg teulu yn llai cyffredin, ac roedd cyfeiriadau ar wefannau practisiau

[4] Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisau deintyddol y GIG a phreifat.

deintyddol yn wael, a dim ond 11.1% o'r sampl oedd yn darparu gwybodaeth glir. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu rhywfaint o negeseuon effeithiol drwy ei linellau ffôn practisiau meddyg teulu a deintyddol, ond bod angen gwneud mwy o waith i gryfhau cyfeiriadau clir ar wefannau meddyg teulu a deintyddol (**Argymhelliad 3**).

28 Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn mynd at wefan 111 bob mis. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd is o alwadau 111 fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu, ac mae'r galwadau 111 a wnaed gan drigolion y Bwrdd Iechyd yn cyfrif am 14.9% o'r holl alwadau ym mis Chwefror 2024. Nodir y pum prif reswm dros alwadau yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: y pum prif reswm dros ffonio 111 (Chwefror 2024)[5]**

| Y Bwrdd Iechyd hwn | y ganran o'r holl alwadau | Sefyllfa Cymru Gyfan | y ganran o'r holl alwadau |
|---|---|---|---|
| Poen yn yr abdomen | 2.7 | Problemau deintyddol | 4.1 |
| Poen yn y frest | 1.9 | Poen yn yr abdomen | 2.4 |
| Peswch | 1.5 | Poen yn y frest | 1.6 |
| Brech | 1.1 | Peswch | 1.4 |
| Twymyn | 1.0 | Brech | 1.0 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwlans

29 Poen yn yr abdomen a phoen yn y frest yw'r prif resymau dros ffonio gwasanaeth 111 yn ardal y Bwrdd Iechyd, sy'n cyfrif am 2.7% ac 1.9% o'r galwadau yn y drefn honno, sydd ychydig yn uwch na chanran Cymru ar gyfer y symptom hwn. Er bod gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaeth GIG 111 Cymru, cyngor ar ddamweiniau a mân anafiadau, a hyperddolen at wiriwr symptomau, ni ddarperir gwybodaeth glir am y symptomau sy'n gysylltiedig â'r ddwy alwad 111 amlaf ar draws y Bwrdd Iechyd.

30 Ledled Cymru, problemau deintyddol yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros ffonio gwasanaeth 111. Nid yw hyn yn ymddangos fel un o'r pum prif reswm dros ffonio 111 yn ardal Aneurin Bevan, ac roedd yn cyfrif am 0.7% o'r galwadau rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2024. Gallai hyn fod oherwydd bod gan y Bwrdd Iechyd nifer ychydig yn uwch o gontractau deintyddol fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (17.8 a 16.8 yn y drefn honno). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwasanaeth

[5] Oherwydd materion parhaus gyda'r system 111 newydd a weithredwyd ym mis Ebrill 2024, nid oes unrhyw ddata ar wasanaeth 111 wedi eu hadrodd ers mis Chwefror 2024.

gofal deintyddol brys sydd ar gael yn ystod dyddiau yr wythnos. Un o flaenoriaethau allweddol y Bwrdd Iechyd yn ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yw cynyddu'r gallu i gael gafael ar ei wasanaethau deintyddol ac mae cynlluniau i gefnogi hyn yn amlwg yn ei ddogfen Blaenoriaethau Gweinidogol 2023-26, gan gynnwys recriwtio mwy o staff a chynyddu llwybrau deintyddol.

### Ymwybyddiaeth cleifion

31 Er gwaethaf Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd a'r gwahanol ddulliau sydd ar waith i gyfathrebu â'r cyhoedd, nododd y staff y buom yn siarad â nhw y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Clywsom safbwyntiau bod y system yn gymhleth ac y gall fod yn ddryslyd i gleifion a rhai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, cartrefi gofal) lywio ynddi. Galwodd staff am wneud mwy o waith i wella dealltwriaeth y cyhoedd o ddiben y gwasanaethau hyn, esbonio sut i gael gafael arnynt, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd pan fo newidiadau i wasanaethau.

32 Mae gwaith gan Llais yn ategu'r persbectif hwn[6]. Yn ei Adroddiad Ymgysylltu ym mis Mawrth 2023, asesodd Llais brofiadau cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac ym mhedair Uned Mân Anafiadau y Bwrdd Iechyd. Dywedodd sawl person a holwyd nad oeddent wedi cysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol cyn mynd i'r Adran Achosion Brys ac mae Llais hefyd yn adrodd nad oedd rhai cleifion yn ymwybodol o'r dewis o gysylltu ag 111. Ar ôl cael yr adroddiad, ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â Llais i wneud gwelliannau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd o'i ymgyrch gyfathrebu 'Dewis yn Dda' drwy anfon gwybodaeth wythnosol at bartneriaid a rhanddeiliaid a thrwy osod sgriniau gwybodaeth i gleifion mewn mannau aros. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Llais adroddiad cenedlaethol[7] ar gael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, a gipiodd gymysgedd o brofiadau cadarnhaol a negyddol gan gleifion yn y Bwrdd Iechyd yn ogystal â ledled Cymru.

## Ymwybyddiaeth staff a'r gallu i atgyfeirio

33 Canfuom **fod rhai enghreifftiau da o ymgysylltu â staff i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau, a gefnogir gan y model llywio llif, fodd bynnag, mae lle i godi ymwybyddiaeth ymhellach o rai gwasanaethau sydd ar gael a'u hygyrchedd, yn enwedig y rhai a ddarperir gan sefydliadau y trydydd sector.**

[6] Corff cenedlaethol ac annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu ac adrodd safbwyntiau a phrofiadau y cyhoedd er mwyn dylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol yw Llais.

[7] Adroddiad cenedlaethol Llais, 'Cael Gofal Iechyd Brys yn Ysbytai Cymru' Chwefror 2025

## Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

34 Mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i godi ymwybyddiaeth y staff o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae’r dulliau hyn yn cynnwys bwletinau staff, cyflwyniadau ac ymgynghoriadau â’r staff. Hefyd, gellir dod o hyd i hysbyslenni wedi eu hanelu at y staff i esbonio diben model llywio y Ganolfan Llif[8] ar wefan y Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag adnodd hyfforddi ‘Llywio Gofal’, sy’n arwain y staff drwy’r gwahanol wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng y gellir cyfeirio cleifion atynt. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cwrdd â nifer o grwpiau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth o’r gwasanaethau sydd ar gael. Mae Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd (2023-2026) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda thimau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

35 Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan rai cyfweledigion yn awgrymu bod rhai aelodau staff yn parhau i weld y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth ac yn ddryslyd, ac amrywiol yw’r ddealltwriaeth o’r gwasanaethau sydd ar gael i gleifion.

36 Canfuwyd bod cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng y Bwrdd Iechyd a staff gofal sylfaenol yn amrywiol. Mae datblygu ffrwd waith gofal sylfaenol brys yn rhaglen Chwe Nod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau rhai perthnasoedd, ac mae cysylltiadau agosach wedi eu meithrin rhwng clystyrau meddygon teulu a’r Ganolfan Llif ac Unedau Mân Anafiadau. Amlygodd cyfweledigion hefyd fod cyfarfodydd gyda’r Cyngor Meddygol Lleol yn fforwm effeithiol ar gyfer cyfathrebu, yn ogystal â Chydweithredwyr Proffesiynol a’r wybodaeth ddiweddaraf yn wythnosol i’r staff gofal sylfaenol gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol. Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfweliadau fod cyfleoedd i wella’r sianel gyfathrebu rhwng gofal eilaidd a meddygon teulu, oherwydd bod staff gofal eilaidd wedi dweud mai dim ond drwy’r llinellau ffôn a ddefnyddir gan gleifion i drefnu apwyntiadau y gallant gysylltu â meddygon teulu (**Argymhelliad 3**).

37 Hefyd, gall gwybodaeth i gipio llwybrau ac arwain staff fod yn anghyson ac nid yw’n rhwydd cael gwybodaeth am sut a lle y gall staff gyfeirio cleifion at wasanaethau cyfryngol sy’n cael eu rhedeg gan y trydydd sector a gwasanaethau yn y gymuned. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd sy’n cynnwys manylion am lwybrau atgyfeirio. Y Bwrdd Iechyd sy’n gyfrifol am sicrhau bod y cyfeiriadur hwn yn cael ei ddiweddaru â gwybodaeth gywir. Ym mis Mai 2025, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddatblygu’r cyfeiriadur gwasanaethau ymhellach er mwyn creu fersiwn gyfunol sy’n dwyn gwybodaeth ynghyd mewn un warws. Wrth gwblhau’r gwaith hwn, dylai’r Bwrdd Iechyd ystyried sut i sicrhau bod mynediad eang at yr

[8] Mae model llywio y Ganolfan Llif yn hwyluso atgyfeiriadau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol cael mynediad at y model hwn dros y ffôn. Cefnogir y Ganolfan Llif gan dîm amlddisgyblaethol a’i nod yw gwella’r llif cleifion, darparu cyngor arbenigol ar lwybrau atgyfeirio a lleihau nifer y cleifion a drosglwyddir i’r Adran Achosion Brys.

wybodaeth sydd ar y cyfeiriadur gwasanaethau hwn, gan gynnwys ar gyfer staff cymunedol a chartrefi gofal (**Argymhelliad 4**).

## Atgyfeirio at wasanaethau

38 Nod y Bwrdd Iechyd yw cryfhau prosesau atgyfeirio am ofal brys a gofal mewn argyfwng drwy ei fodel llywio llif. Cefnogir hyn drwy weithredu un rhif ffôn y gall gweithwyr iechyd proffesiynol ei ddefnyddio i gael gafael ar dri gwasanaeth: bregusrwydd, gofal sylfaenol brys a'r Ganolfan Llif ei hun. Trwy'r llinell ffôn hon, gall parafeddygon a meddygon teulu ofyn am gyngor wrth wneud atgyfeiriadau, gan gynnwys gwybodaeth am lwybrau eraill megis y Tîm Adnoddau Cymunedol a gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.

39 Roedd gan y staff ambiwlans a gyfwelwyd ac a arsylwyd ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda am lwybrau atgyfeirio. Mae nifer o'r llwybrau eraill a weithredwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi eu disgrifio fel rhai llwyddiannus, gan gynnwys yr Uned Ymateb Meddygon, llwybr Cwympiadau a'r defnydd o Consultant Connect. Fodd bynnag, mynegodd sawl cyfwelai Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yr angen am lwybrau atgyfeirio mwy uniongyrchol at wasanaethau eraill, yn hytrach na chael gafael ar y rhain drwy'r Ganolfan Llif. Yn ogystal â hyn, awgrymodd staff ambiwlans bod angen datblygu llwybrau atgyfeirio eraill ychwanegol, gan gynnwys ar gyfer cyflyrau iechyd megis poen yn y frest, problemau anadlu a phoen yn yr abdomen, yn ogystal â llwybr beichiogrwydd cynnar a mwy o lwybrau eraill ar gyfer cefnogi cleifion sydd â chyflyrau iechyd meddwl (**Argymhelliad 6**).

40 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd ychydig yn is o gleifion sy'n ffonio 999 yr ymdrinnir â nhw drwy 'clywed a thrin' na'r cyfartaledd yng Nghymru (14.1% o'i chymharu â 15.1% ym mis Ebrill 2024). O'r galwadau hynny, mae'r gyfran sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill yn unol yn fras â chyfartaledd Cymru (73.1% o'i chymharu â 73.9%).

41 Mae gwasanaeth 111 hefyd yn cyfeirio cyfran uwch o gleifion o'r rhanbarth at wasanaethau eraill. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi'r graddau y mae gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys.

**Arddangosyn 5: cyfeirio at wasanaethau eraill (Chwefror 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---:|---:|
| y ganran o'r galwadau 111 a gyfeiriwyd at feddyg teulu y tu allan i oriau | 48.1 | 41.0 |
| y ganran o'r galwadau 111 a gyfeiriwyd at broffesiwn iechyd arall | 2.0 | 2.4 |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

42 Yn ystod 2023-24, roedd cyfradd cyfeirio galwadau 111 at wasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau y Bwrdd Iechyd yn uwch na'r sefyllfa yng Nghymru, ac roedd y gyfradd yn llawer uwch yn ystod cyfnod y gaeaf. Roedd atgyfeiriadau at broffesiwn iechyd arall yn gyson â chyfartaledd Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod a dderbyniodd cleifion y cyngor hwnnw, neu a oedd y gwasanaethau hynny yn dal wedi cyfeirio cleifion at yr Adran Achosion Brys yn y pen draw.

43 Hefyd, trosglwyddwyd 4.6% o'r galwadau i wasanaeth 999, i wasanaeth 111, sy'n dangos eu bod yn llai taer. Fodd bynnag, o'r galwadau hynny, trosglwyddwyd 30.6% ohonynt yn ôl at linell ffôn 999 er mwyn ystyried anfon ambiwlans. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod, sef 27.6%. Mae'r gyfradd uwch hon yn awgrymu bod lle i gynyddu'r llwybrau priodol sydd ar gael ar gyfer galwadau sy'n daer ond nad yw bywyd yn y fantol ar draws y Bwrdd Iechyd.

44 Mae'r graddau y mae criwiau ambiwlans yn gallu 'gweld a thrin' cleifion yn y fan a'r lle yn ardal y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (15.8% o'i gymharu ag 11.8% ym mis Chwefror 2025). Mae canran y cleifion hyn a gyfeirir at wasanaethau gofal eraill yn is na'r sefyllfa yng Nghymru (7.4% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 11.9% ym mis Chwefror 2025).

## Gwasanaethau i helpu i reoli'r galw

45 Canfuom fod **gwasanaethau wedi eu datblygu er mwyn helpu i reoli'r galw, gan gynnwys rhai fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r gwasanaethau hyn yn is o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill, sy'n awgrymu bod cyfleoedd i gryfhau mynediad.**

### Gwasanaethau fferylliaeth cymunedol

46 Ar gyfer 2023-24, roedd gan y Bwrdd Iechyd nifer is na'r cyfartaledd o fferyllfeydd cymunedol fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru, sef 19.9 (o'u cymharu â 20.9 ar lefel Cymru). Roedd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd wedi cofrestru i ddarparu'r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2023-24. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau[9]. Fodd bynnag, pe byddai angen gwrthfiotigau, yna byddai angen cyfeirio cleifion at eu meddyg teulu. Nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ar gyfer 2023-24 oedd yr isaf yng Nghymru (8,556 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 10,471). Yr anhwylderau mwyaf cyffredin a adroddwyd oedd llid yr amrannau, clefyd y gwair a dermatitis.

[9] Cynllun anhwylderau cyffredin, 2021

47 Er mwyn ategu’r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol hefyd wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau gwell ychwanegol, sy’n cynyddu gallu fferyllwyr cymunedol i ymateb ymhellach i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu’r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf, a’r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol. Mae’r ddau wasanaeth yn galluogi’r fferyllydd cymunedol i bresgripsiynu gwrthfiotigau. Yn ogystal â hynny, gall fferyllwyr cymunedol ddarparu’r gwasanaeth oriau ychwanegol, sy’n caniatáu iddynt estyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth ar ŵyl banc.

48 Nodir y niferoedd a fanteisiodd ar y rhain yn **Arddangosyn 6.**

**Arddangosyn 6: y niferoedd a fanteisiodd ar wasanaethau gwell mewn fferyllfeydd cymunedol (2023-24)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai’r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf | 63 | 79 |
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai’r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol | 30 | 28 |
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai wasanaethau oriau ychwanegol | 23 | 16 |

Ffynhonnell: StatsCymru

49 Er bod bron i ddwy ran o dair o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd yn darparu’r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf, sy’n gynnydd o 53% yn 2022-23, mae’r nifer a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn yr isaf yng Nghymru. Mae’r ddarpariaeth gwasanaeth presgripsiynu annibynnol wedi cynyddu ers 2022-23 hefyd, ac mae’r nifer a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn ychydig yn uwch na’r sefyllfa yng Nghymru. Er bod canran y fferyllfeydd cymunedol sy’n darparu’r gwasanaeth oriau ychwanegol yn llawer uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru, mae’r gyfradd wedi gostwng yn sylweddol o 54% o’r practisiau yn 2022-23.

## Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys yr un Dydd

50 Yn unol ag uchelgeisiau Rhaglen Chwe Nod, mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Egwyddor Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yw darparu asesiadau a thriniaeth ar yr un diwrnod i gleifion y mae angen sylw meddygol neu lawfeddygol brys arnynt, heb fod angen i’r claf gael ei dderbyn i’r ysbyty dros nos. Mae gan y Bwrdd Iechyd unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Llawfeddygol a Meddygol sy’n gweithredu bum diwrnod yr wythnos rhwng 8am ac

8pm ar hyn o bryd, ac eithrio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Ysbyty Ystrad Fawr sy'n cau am 4pm ar ddydd Gwener.

51 Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, roedd gan y Bwrdd Iechyd y gyfradd isaf namyn un o ran presenoldeb yn ei unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ledled Cymru (191.9 o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 246.3). Gellir gwneud atgyfeiriadau at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod drwy'r model llywio llif neu drwy system Consultant Connect[10]. Amlinella Cynllun Chwe Nod 2024-25 yr uchelgais o sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle cywir y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y cleifion meddygol acíwt sy'n cael eu gweld mewn uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, a rhagwelir o 400 o gleifion yr wythnos ar draws gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod/Ambiwlans (ynghyd â 240 yn fwy a ragwelir trwy Unedau Asesu Meddygol). Adrodda papur Bwrdd ym mis Ionawr 2025 yn dilyn peilot cychwynnol a ddarparai asesiad cychwynnol i gleifion meddygol mewn uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, yn hytrach na'r Uned Asesu Meddygol, fod y Bwrdd Iechyd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn trwygyrch cleifion drwy Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Cefnogir hyn gan y data sy'n dangos bod lefelau presenoldeb wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Hydref 2024.

52 Mae arferion da yn dangos y dylid bod cyfraddau uchel o gleifion a ryddheir o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. Roedd nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod y Bwrdd Iechyd hefyd yn is na'r sefyllfa yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2024 (77.4% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 82.5%). Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu efallai bod modd sicrhau bod gan y cleifion sy'n cael eu cyfeirio at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod yr anghenion priodol ar gyfer y gwasanaeth, hynny yw eu bod yn gallu cael diagnosis a thriniaeth a chael eu rhyddhau yr un diwrnod. Cefnogwyd y persbectif hwn gan grwpiau pwyslais a gynhaliwyd a nododd fod mwy o waith i'w wneud i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a'r Adran Achosion Brys.

53 Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd ddwy Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys sy'n darparu gwasanaethau 24/7 ac a leolir yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Mae cyfradd y cysylltiadau â Chanolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn y Bwrdd Iechyd wedi amrywio'n sylweddol ers mis Ebrill 2022, gan amrywio rhwng uchafswm o 351 ac isafswm o 100. Mae nifer cyfartalog y cysylltiadau misol â Chanolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ystod y cyfnod hwnnw wedi bod yr isaf yng Nghymru ar 220, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 375. Gellir gwneud atgyfeiriadau i'r Canolfan Gofal Sylfaenol Brys gan y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, Unedau Mân Anafiadau a'r Adran Achosion Brys, yn ogystal â GIG 111 Cymru.

[10] Ap ffôn sy'n cysylltu clinigwyr y GIG, gan gynnwys meddygon teulu a pharafeddygon, ag amrywiaeth o ymgynghorwyr ysbyty fel y gallant gael cyngor a chanllawiau yw Consultant Connect.

Mae gweithredu gwasanaeth gofal brys 24/7 yn ffrwd waith allweddol yng Nghynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd. Er mwyn cefnogi hyn, lansiodd y Bwrdd Iechyd fodel cydleoli ymarferydd nyrsio integredig ar gyfer trydydd Canolfan Gofal Sylfaenol Brys ac Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Ystrad Fawr ym mis Tachwedd 2023. Nododd Llywodraeth Cymru y gwasanaeth hwn fel astudiaeth achos, a ddywedodd fod y gwasanaeth wedi cefnogi 866 o gleifion i osgoi presenoldeb mewn Adran Achosion Brys, gan wella'r defnydd o'r Canolfan Gofal Sylfaenol Brys a chreu model cyflawni mwy cynaliadwy. Er gwaethaf hyn, mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynyddu gymaint â phosibl werth Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys er mwyn dod â nifer y cysylltiadau cyhoeddus yn unol â chyfartaledd Cymru.

## Effaith newidiadau i'r gwasanaeth ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng


54 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'i Unedau Mân Anafiadau, ond bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau'r defnydd gorau bosibl o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Mae amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys yn broblem ac mae oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel.**

### Perfformiad ambiwlans

55 Ers y pandemig, mae galwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans ar draws y Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynyddu. Mae nifer y galwadau coch a dderbynnir bellach yn llawer uwch na'r lefel a brofai'r gwasanaeth cyn y pandemig, gyda chyfartaledd o 1,015 o alwadau coch y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o'i gymharu â chyfartaledd o 374 o alwadau y mis rhwng mis Mawrth 2018 a mis Chwefror 2019. Er ei fod yn parhau i gyfrif am y mwyafrif o'r galwadau 999, mae nifer y galwadau oren wedi gostwng ers y pandemig, gyda 4,523 o alwadau y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 ar gyfartaledd (o'i gymharu â 4,782 rhwng mis Mawrth 2018 a mis Chwefror 2019).

56 Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn y galw am ambiwlansys, mae'r gyfradd y mae criwiau ambiwlans yn cludo cleifion i'r ysbyty wedi gostwng ers y lefelau a fodolai cyn y pandemig o 68.4% (Mawrth 2018 – Chwefror 2019), i 63.3% (Mawrth 2024 – Chwefror 2025). Mae'r gyfradd yn gyson â chyfartaledd Cymru (63.4%). Noda **Arddangosyn 7** y gyrchfan ar gyfer pob achos o gludo.

**Arddangosyn 7: cyrchfan cludo fel cyfran o gyfanswm y cludiant (Mawrth 2024 – Chwefror 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| canran y cleifion a gludwyd i adrannau achosion brys mawr | 68.3 |  | 88.7 |

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| canran y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau | 29.9 |  | 6.3 |
| canran y cleifion a gludwyd i uned derbyniadau meddygol acíwt mawr | 0.2 |  | 3.1 |
| canran y cleifion a gludwyd i uned arall ee, uned iechyd meddwl neu uned famolaeth | 1.6 |  | 1.8 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans, Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru

57 Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran is o gleifion i'w brif Adran Achosion Brys na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y gyfradd gymharol uchel o gludiadau i unedau mân anafiadau, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r uchaf ledled Cymru. Mae pedair uned mân anafiadau yn y Bwrdd Iechyd y lleolir pob un ohonynt mewn safleoedd ysbyty ac mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn bennaf trwy'r Ganolfan Llif. Roedd dwy o'r unedau yn arfer bod yn adrannau brys cyn yr agorwyd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn 2020. Ar ôl cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2023, newidiodd y Bwrdd Iechyd oriau agor y gwahanol unedau mân anafiadau er mwyn bodloni'r galw yn well. O ganlyniad, mae tair o'r pedair uned yn agored saith diwrnod yr wythnos, ac mae'r uned yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn agored am 24 awr.

58 Fodd bynnag, mae nifer y cludiadau i unedau derbyniadau meddygol acíwt mawr (sy'n cynnwys unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod) yn ogystal â chludiadau i unedau eraill yn isel. Mae hyn oherwydd bod y brif ffynhonnell atgyfeirio i'r gwasanaethau hyn drwy'r Ganolfan Llif, gan gynnwys ar gyfer y rhai gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

59 Roedd cludiadau i'r ysbyty yn dilyn galwad 999 o gartref gofal ar gyfradd gyfartalog o 53.8% y mis rhwng mis Hydref 2023 a mis Tachwedd 2024, yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 60.5%, a'r isaf yng Nghymru. Gallai hyn adlewyrchu gwaith Tîm Ymateb i Fregusrwydd y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'r Llwybr Cwympiadau newydd sydd wedi ei weithredu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu ymgymryd â rhaglen waith a gydgynhyrchir â chartrefi gofal er mwyn helpu i leihau ymhellach gludiadau i'r Adran Achosion Brys, yn ogystal â chefnogi peilot 'Luscii' [11] dan arweiniad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

[11] Mae peilot 'Luscii' yn cynnwys technoleg monitro o bell sydd wedi ei chynllunio i gyfathrebu gwybodaeth glinigol cleifion i staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er mwyn blaenoriaethu'r ymateb priodol yn ddiogel.

60 Dau nod allweddol yng Nghynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd yw gwella'r perfformiad wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a lleihau cludiadau ambiwlans i'r Adran Achosion Brys. Camau gweithredu allweddol a roddwyd ar waith i gefnogi'r nodau hyn yw rhaglen gydweithredol rhwng y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chynllun gweithredu Meddygaeth Frys. Fodd bynnag, mae data'n dangos bod oediadau wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel. Dim ond 15.9% oedd canran y trosglwyddiadau ambiwlans a gwblhawyd o fewn 15 munud rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o'i chymharu â tharged cenedlaethol o 100%. Roedd y perfformiad hwn yn unol â'r sefyllfa yng Nghymru, sef 15.8%. Profir y mwyafrif o oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn y brif Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, er y gall oediadau wrth drosglwyddo cleifion fod yn broblem mewn Unedau Mân Anafiadau. Roedd hyn yn amlwg rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, oherwydd dim ond 15.0% o'r trosglwyddiadau yn Unedau Mân Anafiadau y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd o fewn 15 munud (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 31.4%).

61 Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom rai o'r materion llif sy'n arwain at oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn ysbytai y Bwrdd Iechyd. Yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle gwelsom rhwng wyth a deg ambiwlans yn aros ar flaengwrt yr ysbyty, nododd Parafeddygon eu bod weithiau'n treulio sifft 12 awr gyfan yn aros i drosglwyddo un claf. Hefyd, mynegodd staff nyrsio a staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bryderon ynghylch y system trosglwyddo rhif adnabod proffesiynol deuol presennol, a dywedodd y staff nad oedd bob amser yn cael ei chwblhau'n llawn yn ôl y disgwyl. Er bod archwilio'r materion technegol hyn y tu hwnt i gwmpas ein hadolygiad, efallai y bydd y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn elwa o archwilio'r materion hyn ymhellach.

62 Mae'r perfformiad trosglwyddo wedi gostwng yn raddol yn y Bwrdd Iechyd ers mis Medi 2023 ac mae'n arwain at nifer uchel o oriau a gollir. Collodd y Bwrdd Iechyd 3,214 awr bob mis ar gyfartaledd rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025. Mae hyn yn cyfateb i 267 o sifftiau 12 awr lle'r oedd cleifion yn aros mewn ambiwlans y tu allan i ysbyty am driniaeth ac nid oedd parafeddygon yn gallu ymateb i alwadau eraill.

63 Yn 2021, canfu adolygiad clinigol a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans[12] fod y gyfradd y mae niwed yn digwydd i gleifion yn cynyddu pan fo eu trosglwyddiadau yn cymryd dros awr i'w cwblhau. Dangosodd yr adolygiad hwn fod y tebygolrwydd y bydd claf yn profi niwed difrifol, neu barhaol, yn 7% ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cymryd rhwng awr ac awr a hanner, 10% ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cymryd rhwng dwy a thair awr a 27% ar gyfer

[12] 'Delayed hospital handovers: Impact assessment of patient harm' Y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans, Tachwedd 2021

trosglwyddiadau sy’n cymryd dros bedair awr i’w cwblhau. Dangosodd data o fis Chwefror 2025 fod 40.5% (771) o drosglwyddiadau yn y Bwrdd Iechyd wedi cymryd dros awr i’w cwblhau, ac y cymerodd 20% (380) o drosglwyddiadau dros bedair awr i’w cwblhau. Â’r fethodoleg hon, mae posibilrwydd bod niwed difrifol wedi dod i 103 o gleifion oherwydd oediadau trosglwyddo yn ystod mis Chwefror 2025.

64 Mae oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn atal gallu staff ambiwlans i ymateb i alwadau brys eraill yn y gymuned. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn parhau i fod yn heriol ac yn is na’r targedau perfformiad, er eu bod ychydig yn well na’r cyfartaledd yng Nghymru neu’n unol ag ef (**Arddangosyn 8**).

**Arddangosyn 8: amseroedd ymateb i alwadau coch ac oren (Mawrth 2024 – Chwefror 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| y ganran o alwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud | 51.1 |  | 48.6 |
| Yr amser ymateb canolrifol i alwadau oren (munudau) | 112 |  | 111 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

65 Mae canran y galwadau coch a ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud yn sylweddol is na’r targed o 65%. Ar gyfartaledd, yr amser ymateb i alwadau oren rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 oedd 1 awr 52 munud, gan godi i 9 awr 6 munud i’r rhai a arhosodd hiraf. Mae’r perfformiad wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Perfformiad yr adran achosion brys

66 Yn y Bwrdd Iechyd, mae cyfradd bresenoldeb yr Adran Achosion Brys fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu wedi bod is yn gyson na’r sefyllfa yng Nghymru, gyda phresenoldeb cyfartalog o 1,174 y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 (o’i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 1,976). I’r gwrthwyneb, mae presenoldeb yn Unedau Mân Anafiadau y Bwrdd Iechyd wedi bod yn llawer uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru (1,262 a 756 yn y drefn honno). Awgrymodd aelodau o staff a gyfwelwyd gennym fod rhai cleifion sydd ag anghenion na ddylid eu trin mewn Unedau Mân Anafiadau yn mynd i’r unedau hynny oherwydd arosiadau ambiwlans hir, atgyfeiriadau amhriodol gan ofal sylfaenol neu oherwydd nad oedd y claf wedi gallu cael apwyntiad meddyg teulu.

67 Mae’r amseroedd aros yn adrannau brys y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gyson yn fras dros y misoedd diwethaf, ac yn uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru, ac

amrywiodd y cleifion a arhosodd yn hwy na phedair awr rhwng 73% a 79%. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn her yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Oddeutu 52% oedd y perfformiad dros y 12 mis diwethaf, sy'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer prif adran achosion brys. Fodd bynnag, mae canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr yn yr Adran Achosion Brys wedi gwella, ar 82.2% ond mae'n dal yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Ar ôl ei hasesu, mae'r gyfradd derbyn cyfartalog yn uwch na lefel Cymru, sef 25.6% o'i chymharu â 22.3% rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025.

# Trefniadau craffu a monitro

68 Mae'r adran hon yn ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn cymhwyso gwersi a ddysgir i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer monitro effaith llwybrau clinigol eraill
- goruchwyliaeth a gwaith craffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.

69 Canfuom fod **amrywiaeth o ddata perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n cael eu monitro a'u craffu'n rheolaidd, fodd bynnag, mae lle i gryfhau sylwadau y staff, dangos yn gliriach y defnydd o sylwadau cleifion i lywio cynlluniau, a gwerthuso buddsoddiadau prosiectau yn gyson.**

## Monitro effaith

70 Canfuom fod **amrywiaeth o ddata ar gael am y defnydd o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys sylwadau cleifion, fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r deallusrwydd hwn yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad ac i lywio cynlluniau, ac mae sylwadau y staff yn gyfyngedig. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ehangu ei ddefnydd o ddata wrth adrodd ar lwybrau eraill.**

71 Crynhoir y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn yn **Arddangosyn 9**.

**Arddangosyn 9: dull o fonitro'r effaith ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos a yw cleifion yn cael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol? | **Yn rhannol** | Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth dda o ddata system cyfan i ddangos sut mae gwasanaethau yn cael eu defnyddio, er enghraifft, unedau adran achosion brys a Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, atgyfeiriadau Canolfan Llif a'r llwybr Cwympiadau newydd. Mae Cynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd a diweddariadau rhaglenni hefyd yn cael eu sbarduno gan ddata, ac maent wedi eu defnyddio i lywio'r broses o gynllunio ffrwd waith, gan gynnwys newidiadau ym model y Ganolfan Llif.<br>Fodd bynnag, roedd data yn gysylltiedig â llwybrau clinigol amgen eraill yn llai cyffredin ymhlith adroddiadau, er enghraifft, effaith Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys y Bwrdd Iechyd a'i Uned Ymateb Meddygon. Awgrymodd y staff y buom yn siarad â nhw y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i archwilio data'n fanwl er mwyn ddadansoddi perfformiad gwasanaethau penodol yn rheolaidd, megis aciwtedd cleifion.<br>Roedd rhagor o waith dadansoddi data yn gysylltiedig â gweithgarwch meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol hefyd yn awgrym o'r modd y gellid gwella'r broses o reoli'r galw ymhellach, er bod y data hyn ar gael yn rheolaidd. |
| A yw sylwadau rheolaidd cleifion yn cael eu ceisio a'u defnyddio i lywio a gwella cynlluniau? | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am brofiad cleifion ac ymgysylltiad â chleifion yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sylwadau cyhoeddus yn rheolaidd drwy system |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | CIVICA[13] a lansiwyd yn 2023, yn ogystal ag adroddiadau gan Llais.<br>Mewn arolwg Llais ym mis Mawrth 2023, er bod 73% o'r 399 o gleifion a arolygwyd wedi ystyried eu profiad yn Adran Achosion Brys neu Uned Mân Anafiadau y Bwrdd Iechyd yn 'dda iawn' neu'n 'dda', roedd llawer o ymatebion negyddol ynghylch hyd yr amseroedd aros. Mae adroddiad yr arolwg yn nodi, er gwaethaf y sylwadau mwy negyddol hyn, fod newidiadau a wnaed ers yr arolwg blaenorol wedi gwella boddhad cleifion. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y Bwrdd Iechyd wedi rhannu canfyddiadau yr arolwg yn weithredol â staff ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gofyn am sylwadau sy'n ymwneud â newidiadau penodol i wasanaethau, megis oriau agor Unedau Mân Anafiadau a'u profiad o'r gofal a dderbyniwyd gan uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio sylwadau cleifion i lywio a gwella cynlluniau (**Argymhelliad 7**). |
| A oes sylwadau rheolaidd gan staff am effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot, er mwyn nodi a chymhwyso gwersi? | **Nac oes** | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn casglu'n rhagweithiol sylwadau gan staff sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi rhai enghreifftiau da i ni o'r modd y mae'n cyfathrebu â staff i godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael, ni chanfuom dystiolaeth o'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sylwadau staff yn ymwneud â newidiadau diweddar mewn gwasanaethau neu wasanaethau gofal brys a gofal mewn |

[13] Platfform meddalwedd a gynlluniwyd i fesur sylwadau cleifion mewn sefydliadau gofal iechyd yw CIVICA.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- |
| | | argyfwng yn fwy cyffredinol (**Argymhelliad 8**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Goruchwylio a chraffu

72 Canfuom fod **goruchwylio a gwaith craffu effeithiol ar berfformiad, ond bod lle i werthuso prosiectau yn fwy cyson.**

73 Crynhoir y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn yn **Arddangosyn 10**.

**Arddangosyn 10: dull o oruchwylio a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- |
| A yw'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei oruchwylio'n effeithiol ar lefel weithredol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau a gymerir i fodloni'r galw yn well? | **Ydy** | Mae Bwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn darparu gwaith craffu a sicrwydd ar ffrydiau gwaith gofal brys a gofal mewn argyfwng allweddol. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n cadeirio Bwrdd y Rhaglen. Mae gan Fwrdd y Rhaglen gynrychiolaeth glir gan arweinyddiaeth gweithredol a chlinigol, ac mae'n cynnwys presenoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fodd bynnag, mae cofnodion yn dangos nad oes cynrychiolwyr gofal sylfaenol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn ar hyn o bryd, a allai gyfyngu ar ddealltwriaeth y Bwrdd o bwysau galw ehangach a rhyngweithio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng (**Argymhelliad 9**). |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | Mae cofnodion gan Fwrdd y Rhaglen yn dangos diweddariadau ac adroddiadau ar yr holl ffrydiau gwaith allweddol, yn ogystal â dadansoddiad o fetrigau y Chwe Nod. Mae craffu ar gynllunio a gweithredoedd hefyd yn amlwg mewn amrywiaeth o adroddiadau perfformiad.<br>Creffir ar berfformiad gweithredol gofal brys a gofal mewn argyfwng hefyd drwy Gyfarfodydd Monitro Uwch[14] a Chyfarfodydd Llif Diogelwch[15], sy'n darparu gwybodaeth fanwl iawn yn canolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, a chynhyrchir rhywfaint o ddadansoddiad data o system Lightfoot[16]. |
| A yw'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei oruchwylio'n effeithiol ar lefel pwyllgor a bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau a gymerir i fodloni'r galw yn well? | **Ydy** | Canfu ein hadolygiad o bapurau waith craffu a goruchwylio gofal brys a gofal mewn argyfwng effeithiol ar lefel y Bwrdd a Phwyllgorau, gan gynnwys perfformiad, blaenoriaethau a chynlluniau. Mae adrodd ar gerrig milltir gofal brys a gofal mewn argyfwng a thargedau gweinidogol yn digwydd drwy Adroddiadau Perfformiad Integredig chwarterol a Dangosfwrdd y Bwrdd Iechyd. Mae'r dulliau adrodd hyn yn darparu trosolwg o'r perfformiad yn ogystal â'r tueddiadau, ond gellid darparu mwy o fanylion am y camau a gymerir i wella'r perfformiad a'u heffaith. Mae'r broses o |

[14] Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gyfarfodydd Monitro Uwch er mwyn monitro a chraffu ar feysydd gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi o dan statws uwchgyfeirio. Mae cyfarfodydd yn monitro metrigau, targedau a chamau perfformiad.

[15] Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Cyfarfodydd Llif Diogelwch er mwyn monitro llif drwy'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda phwyslais penodol ar wella perfformiad trosglwyddo ambiwlansys.

[16] Platfform dadansoddeg data a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd gofal iechyd a gweithredol yw Lightfoot. Mae'n darparu data amser real i Fyrddau Iechyd y gellir eu defnyddio, er enghraifft, i reoli'r llif cleifion.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | fonitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Chwe Nod ar gyfer Cynllun Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn digwydd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod, a gynhelir bob mis. |
| A oes trefniadau ar waith ar gyfer monitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru? | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro buddsoddiad prosiect yn ei Raglen Chwe Nod ac mae ar y trywydd iawn yn ôl Ffurflenni Monitro Misol diweddar. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu arferion gwerthusol cyson ar draws y sefydliad. Canfuom, er bod gan y Bwrdd Iechyd brosesau mewnol ar waith i werthuso prosiectau a mentrau gofal brys a gofal mewn argyfwng o ran effeithiolrwydd a gwerth am arian, mae hyn yn anghyson ar draws y sefydliad (**Argymhelliad 10**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 11: dulliau archwilio**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynllun Cyflawni y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, 2024-25<br>• Cynllun Blynyddol 2024-27: Bwriad tair blynedd<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig (2022-25)<br>• Adroddiadau Canlyniadau a Pherfformiad Chwarterol<br>• Blaenoriaethau Gweinidogol y Bwrdd Iechyd 2023-26<br>• Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu 2023-2026<br>• Adroddiadau Risg Strategol a Sicrwydd<br>• Papurau Cyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus<br>• Papurau y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Papurau Cyfarfodydd Llif Diogelwch<br>• Papurau Cyfarfodydd Monitro Uwch<br>• Papurau Cyfarfodydd Sicrwydd Is-adrannol<br>• Papurau Bwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Diweddariad Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Llywio Gofal. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (adnodd hyfforddi staff)<br>• Cyflwyniad Sylwadau Cleifion Unwaith i Gymru CIVICA<br>• Dogfen briffio Llais rhanbarth Gwent |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Arweinydd Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol<br>• Rheolwr Cyffredinol Gofal Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (De-ddwyrain) |
| Trafodaethau grŵp | Gwnaethom gynnal trafodaethau grŵp gyda’r canlynol:<br>• Arweinwyr Clwstwr Meddygon Teulu ac Arweinwyr y Tu Allan i Oriau<br>• Arweinwyr yr Adran Achosion Brys, unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys ac Unedau Mân Anafiadau |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi hefyd ar y broses o drosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Gwnaethom siarad â’r staff canlynol:<br>• Rheolwr Ardal<br>• Parafeddyg x 2<br>• Uwch-nyrs<br>• Nyrs Brysbennu<br>• Derbynnydd yr Uned Argyfyngau |
| Dadansoddi data | Gwnaethom ddadansoddi data sy’n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio’r ffynonellau canlynol:<br>• Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwlans<br>• Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru<br>• StatsCymru<br>• Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau<br>• Ffurflenni Monitro Misol. |
| Adolygiadau gwefan a phractisiau | Gwnaethom adolygu gwefan y Bwrdd Iechyd a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth i’r cyhoedd am ddefnyddio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Gwnaethom adolygu gwefannau practisiau a llinellau ffôn hefyd ar gyfer:<br>• sampl o 17 practis meddyg teulu<br>• sampl o 18 practis deintyddol. |

Mae'r holl waith archwilio wedi ei gyflawni yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Atodiad 2

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

**Arddangosyn 12: meini prawf archwilio**

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| **A oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?** | |
| A yw cynlluniau yn ceisio gwella'r broses o reoli'r galw drwy newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Chwe Nod ar gyfer gofal Brys a gofal mewn Argyfwng? | • Strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng:<br>– yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfredol, wedi ei llywio gan ddata ar y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys uchafbwyntiau mewn gweithgarwch ar amseroedd/diwrnodau a misoedd penodol, demograffeg, a chyflyrau cleifion<br>– yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng<br>– yn gydnaws â gofynion Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng er mwyn rheoli'r galw yn well<br>– yn cynnwys gwybodaeth wedi ei dogfennu am lwybrau clinigol eraill, gan gynnwys sut a phryd y dylid eu defnyddio. |
| A yw'r cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfredol a'r | • Mae'r strategaethau a/neu'r cynlluniau yn manylu ar yr hyn a ganlyn: |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| Iefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau? | – y gofynion adnoddau, a'r cyllid wedi ei nodi er mwyn cefnogi unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir sy'n rhan o'r strategaeth/cynllun.<br>– y gweithlu a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r galw, gan gynnwys newidiadau mewn modelau cyflenwi megis brigau y gaeaf. Mae'r cynllun yn nodi'n glir y mathau o staff/sgiliau clinigol ac anghlinigol sydd eu hangen. |
| **A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a ydynt yn gweithio?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol fel eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau yn briodol? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael a dewisiadau eraill i adrannau achosion brys drwy wahanol ffyrdd – gwefannau, trinwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, cyfryngau cymdeithasol, fideos ac ati.<br>• Mae'r strategaethau a/neu'r cynlluniau cyfathrebu cyhoeddus yn gydnaws â gofynion nodau 2 a 3 o Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf).<br>• Mae tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda o sut i gael gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion. |
| A oes gan staff wybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion, pryd y maent ar gael, ac a ydynt | • Mae ymgysylltiad rhwng Byrddau Iechyd a chlystyrau meddygon teulu/deintyddion/parafeddygon/fferyllwyr ynghylch llwybrau eraill sydd ar waith a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i'r staff.<br>• Gall staff gyfeirio yn uniongyrchol/dargyfeirio cleifion i leoliadau sy'n fwy priodol i'w hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| yn gallu cael gafael arnynt? | |
| A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn arwain at reoli'r galw yn well? | • Mae atgyfeiriadau i fodelau gwasanaeth newydd yn unol ag uchelgeisiau y chwe nod ar gyfer llawlyfr polisi gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>• Gall Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeirio o leiaf 4% o'r achosion at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod.<br>• Mae galwadau 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae'r cyfraddau gadael yn isel.<br>• Mae'r amseroedd y mae ambiwlansys yn eu cymryd i ymateb i achosion o argyfwng, oediadau wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella.<br>• Mae data yn dangos gostyngiad yn niferoedd y cleifion sy'n mynd i Adrannau Achosion Brys oherwydd mân anhwylderau/anhwylderau llai acíwt.<br>• Mae'r data yn dangos ystod dda o apwyntiadau meddyg teulu sydd ar gael.<br>• Mae data'n dangos bod galwadau a ddargyfeirir rhwng 999 a 111/Galw Iechyd Cymru yn briodol, ac mai lefelau isel o alwadau sy'n cael eu dargyfeirio'n ôl a bod niferoedd y cyfraddau ailgysylltu yn isel. |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn cymhwyso gwersi a ddysgir i wella'r gwasanaethau ymhellach?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol eraill, gan gynnwys drwy geisio | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos a yw cleifion yn cael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| sylwadau gan staff a defnyddwyr gwasanaethau? | • Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn ceisio sylwadau cleifion yn rheolaidd ac yn eu defnyddio i lywio a gwella cynlluniau.<br>• Ceisir sylwadau rheolaidd gan wahanol staff am effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot, er mwyn nodi a chymhwyso gwersi. |
| A oes gwaith craffu a sicrwydd effeithiol mewn cysylltiad â chyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a llwybrau clinigol eraill? | • Mae goruchwyliaeth effeithiol o’r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, yn weithredol ac ar lefel pwyllgorau a’r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a’r camau a gymerir i fodloni’r galw yn well. Mae’r gwaith goruchwylio a chraffu yn cael ei lywio gan feincnodi cymharol a dysg gan gyrff eraill pan fo hynny’n briodol.<br>• Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae’r prosiect wedi ei wneud. |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Mae Arddangosyn 13** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

**Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Risgiau mewn cynlluniau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau, yn y dyfodol, fod gan bob risg a nodir yng Nghynlluniau Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng berchennog risg clir, a bod gan y camau lliniaru ddyddiadau targed clir (**Arddangosyn 2**). | Mae Rhaglen Chwe Nod yn cynnal cofrestr risgiau canolog a chofnod gweithredu; er mwyn cryfhau ein proses sicrwydd, bydd y gofrestr yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, a bydd llwybrau atgyfeirio yn cael eu diffinio'n glir o ran risgiau sylweddol.<br>Hefyd, bydd y broses rheoli risgiau yn cael ei chryfhau ar draws y Chwe Nod ar gyfer Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn y ffyrdd canlynol:<br>• bydd gan yr holl risgiau a nodir yn y Rhaglen berchnogion a enwir sy'n atebol am oruchwylio, atgyfeirio a datrys yn barhaus. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson yn y gofrestr risgiau a dogfennaeth y rhaglen.<br>• bydd gan bob cam lliniaru ddyddiadau targed clir ac arweinwyr cysylltiedig. Bydd hyn yn | Medi 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | sicrhau ymyrraeth amserol ac yn darparu sail ar gyfer olrhain cynnydd ar lefel Bwrdd y Rhaglen.<br>Bydd y gwelliannau hyn ar waith cyn cyfarfod Bwrdd y Rhaglen ym mis Medi 2025. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan Dîm y Rhaglen a'i adrodd i'r Bwrdd bob chwarter er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. | | |
| **Cyllido Rhaglen Chwe Nod**<br>A2 Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â Chwe Nod yn barhaus, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Hefyd, dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod nodi unrhyw anghenion cyllido y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol cyfredol **(Arddangosyn 2)**. | Er mwyn sicrhau y cyflawnir ac y cynhelir yn barhaus y mentrau sy'n gysylltiedig â'r Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau canlynol:<br>• mae cyllid y rhaglen genedlaethol wedi ei sicrhau a'i ddyrannu i gefnogi Rhaglen Chwe Nod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hyd at fis Mawrth 2026.<br>• cynhelir proses werthuso strwythuredig ar gyfer yr holl brosiectau a ariennir hyd at fis Mawrth 2026. Bydd hyn yn asesu'r effaith, y canlyniadau a'r aliniad â blaenoriaethau strategol er mwyn llywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.<br>• Mae cynllunio mewnol ar y gweill i nodi gofynion cyllido parhaus ar gyfer gwasanaethau y disgwylir iddynt barhau y tu hwnt i 2025-26. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr gweithredol, cydweithwyr cyllid, a thimau cynllunio strategol er mwyn sicrhau | Rhagfyr 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | cynaliadwyedd ac aliniad â blaenoriaethau bwrdd iechyd.<br>• bydd anghenion cyllido ar gyfer cynlluniau parhaus yn cael eu corffori yng nghynllun ariannol tymor canolig y Bwrdd Iechyd a phrosesau cynllunio busnes, gan sicrhau y gwelir unrhyw fylchau buddsoddi neu anghenion ailddyrannu yn gynnar. | | |
| **Cyfeiriadau cyhoeddus meddygon teulu a deintyddol drwy wefannau**<br>A3 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r galw am ofal brys, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod practisau meddygon teulu a deintyddol yn darparu gwybodaeth clir a hygyrch am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau a chynnal archwiliad yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth **(Paragraff 28)**. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth cyson a hygyrch am ofal brys a gofal mewn argyfwng, fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod mwyafrif y practisau meddygon teulu a deintyddol yn gweithredu fel contractwyr annibynnol i'r GIG, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gwasanaethau hyn yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 a Rheoliadau Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG (Cymru) 2006, yn y drefn honno.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei awdurdodi i fynnu dim ond y darpariaethau hynny a nodir yn y rheoliadau perthnasol ynghylch darparu gwybodaeth am gleifion ac adnoddau ar-lein, a sicrheir cydymffurfiaeth â'r rheoliadau drwy brosesau monitro contract safonol. Y tu hwnt i'r gofynion | Hydref 2026 | Y Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | statudol hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfathrebu'r canfyddiadau hyn ac yn sicrhau bod y mater yn cael ei godi gyda darparwyr drwy'r fforymau cydweithredol proffesiynol priodol. | | |
| **Cyfathrebu ac ymgysylltu â chleifion a gofalwyr**<br>A4 Er mwyn cryfhau mynediad at wasanaethau allweddol yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng a'r ddealltwriaeth ohonynt, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r broses cyfathrebu ac atgyfeirio rhwng gofal eilaidd a meddygon teulu er mwyn nodi sianel mwy effeithlon o ran amser i drafod achosion cleifion (**Paragraff 36**). | Er mwyn gwella cyfathrebu a llwybrau atgyfeirio rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol, a chefnogi trafodaethau achos cleifion mwy effeithlon, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau canlynol:<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i gyflwyno pwynt mynediad sengl 24/7 ar gyfer atgyfeiriadau clinigol a chyngor rhwng gofal sylfaenol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a gofal eilaidd. Mae'r gwasanaeth yn cyflawni amseroedd ateb i alwadau cyfartalog o dan dri munud yn gyson, hyd yn oed yn ystod cyfnodau pan fo'r galw'n uchel.<br>• gan gydnabod yr angen am lwybrau atgyfeirio cliriach i wasanaethau megis Bregusrwydd, Gofal Brys ar yr Un Diwrnod, a Gofal Sylfaenol Brys, rydym wedi sefydlu Grŵp Prosiect Hyb Llywio. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am symleiddio mynediad at y llwybrau hyn ac am wella profiad y defnyddiwr ar gyfer clinigwyr sy'n atgyfeirio. | Hydref 2026 | Y Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | • rydym yn ymgysylltu'n weithredol â gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn deall pwyntiau poen a chasglu sylwadau am y system gyfredol. Bydd y mewnbwn hwn yn llywio'n uniongyrchol y broses o ailgynllunio ymarferoldeb pwynt mynediad sengl a phrotocolau atgyfeirio.<br>Bydd Grŵp Prosiect Hyb Llywio yn cyflwyno argymhellion ac yn cyflawni gwaith mireinio system yn ystod y naw mis nesaf, gan adrodd yn rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Chwe Nod. Bydd gwelliannau yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt, gan gynnwys amseroedd ymateb, cywirdeb atgyfeirio, a boddhad defnyddwyr. | | |
| **Cyfeiriadur gwasanaethau**<br>A5 Er mwyn sicrhau bod staff iechyd a gofal yn gallu cyfeirio pobl at y gwasanaethau brys a gofal mewn argyfwng yn ddigonol, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• Sefydlu dulliau i sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG | Er mwyn cryfhau hygyrchedd a chywirdeb gwybodaeth am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau canlynol:<br>**5.1**<br>Bydd swyddog arweiniol a enwir yn cael ei benodi i oruchwylio holl gyfraniadau y Bwrdd Iechyd at Gyfeirlyfr Gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bydd yr unigolyn hwn yn gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar | Tachwedd 2025 | Y Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn parhau i fod yn gyfredol, sy'n cynnwys nodi swyddog sy'n bennaf gyfrifol am y dasg hon<br>• sefydlu dulliau i rannu'r Cyfeiriadur Gwasanaethau â staff cymunedol a chartrefi gofal a ddylai gynnwys Llwybrau atgyfeirio i gefnogi eu carfan o gleifion (**Paragraff 37**). | gyfer diweddariadau gwasanaeth, gan sicrhau cofnodion amserol a chydgysylltiedig ar draws adrannau.<br>**5.2**<br>Bydd y swyddog arweiniol penodedig hefyd yn cydlynu'r broses o ledaenu'r cyfeiriadur i staff cymunedol a chartrefi gofal, â chefnogaeth canllawiau clir ar lwybrau atgyfeirio sy'n berthnasol i'w poblogaethau cleifion.<br>Yn rhan o fenter gwella digidol ehangach, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Cyfeiriadur Gwasanaethau digidol cynhwysfawr, canolog a fydd yn hygyrch i staff y Bwrdd Iechyd a phartneriaid allanol.<br>Hefyd, mae ein llinell broffesiynol ar gael i gartrefi gofal pan fo angen cyngor clinigol, yn enwedig yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau. | Tachwedd 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |
| **Llwybrau atgyfeirio**<br>A6 Er mwyn gwella mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng eraill priodol a'r defnydd o atgyfeiriadau atynt, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda staff allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ddatblygu dulliau atgyfeirio sy'n glir, | Er mwyn gwella mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng priodol, a chefnogi defnydd mwy effeithlon o ddewisiadau atgyfeirio amgen, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau canlynol:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i weithredu pwynt mynediad sengl 24/7 ar gyfer atgyfeiriadau a chyngor rhwng gofal sylfaenol, Ymddiriedolaeth | Mawrth 2026 | Y Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| wedi eu cyfathrebu'n dda ac yn rhwydd cael gafael arnynt **(paragraff 39)**. | GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a gofal eilaidd. Er bod y system hon yn gweithio'n dda ar gyfer mynediad uniongyrchol at ofal eilaidd, rydym yn cydnabod yr angen i gryfhau llwybrau at wasanaethau amgen ymhellach.<br>Rydym wedi sefydlu Grŵp Prosiect Hyb Llywio yn benodol er mwyn gwella eglurder a hygyrchedd llwybrau atgyfeirio at wasanaethau megis Bregusrwydd, Gofal Brys ar yr Un Diwrnod, a Gofal Sylfaenol Brys. Mae'r grŵp hwn yn adolygu dulliau atgyfeirio presennol ac yn nodi cyfleoedd i symleiddio prosesau ar gyfer staff y rheng flaen. | | |
| **Defnyddio sylwadau cleifion**<br>A7 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar sylwadau cleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ddangos sut maent wedi ystyried sylwadau cleifion **(Arddangosyn 9)**. | Er mwyn sicrhau bod sylwadau cleifion yn llywio'n weithredol y broses o gynllunio a gwella gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddull yn y ffyrdd canlynol:<br>• mae straeon cleifion yn cael eu corffori'n rheolaidd yn nhrafodaethau Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod. Rydym yn cydnabod y gwerth y mae'r naratifau hyn yn eu darparu ac rydym wedi ymrwymo i ehangu eu defnydd er mwyn llywio'r broses cynllunio strategol a'r broses o ailgynllunio gwasanaethau.<br>• rydym wedi gweithredu CIVICA, yr offeryn mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion cenedlaethol, yn ddiweddar ar draws ein | Rhagfyr 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau. Bydd hyn yn darparu data cadarn, amser real ar brofiad cleifion mewn gofal brys a gofal mewn argyfwng. Bydd mewnwelediadau a gynhyrchir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cyflwyno i Fwrdd y Rhaglen er mwyn arwain y broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.<br>• rydym wedi sicrhau cynrychiolaeth barhaus gan ein partner rhanbarthol, Llais, ar Fwrdd y Rhaglen Chwe Nod. Mae hyn yn sicrhau bod llais y claf yn bresennol a bod gwaith craffu allanol yn cefnogi gwelliant parhaus.<br>• rydym yn datblygu fframwaith i sicrhau bod sylwadau cleifion gan CIVICA yn cael eu dadansoddi'n thematig, eu holrhain a'u cysylltu â chamau gwella gwasanaethau penodol. Byddwn yn adrodd y cynnydd drwy Fwrdd y Rhaglen ac yn cyhoeddi canfyddiadau cryno i gau'r ddolen sylwadau gyda chleifion a'r cyhoedd. | | |
| **Sylwadau staff am newidiadau i wasanaethau**<br>A8 Er mwyn nodi gwendidau neu ddysg bosibl mewn cysylltiad â newidiadau diweddar i'w wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod gwerth sylwadau staff a phartneriaid wrth nodi gwendidau posibl a chyfleoedd i ddysgu sy'n gysylltiedig â newidiadau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Ar hyn o bryd, mae ymgysylltu â'r staff yn rhan greiddiol o'n methodoleg prosiect ar gyfer mentrau | Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Iechyd gyflwyno dulliau rheolaidd ar gyfer sylwadau staff. Dylai hyn gynnwys sylwadau gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**). | strategol megis Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Gofal Sylfaenol Brys, ac mae cyfranogiad strwythuredig cyn, yn ystod ac ar ôl gweithredu. Mae sylwadau o'r ymrwymiadau hyn yn llywio'n uniongyrchol y broses o werthuso prosiectau a gwella gwasanaethau.<br>Er mwyn cryfhau'r dull hwn a sicrhau sylwadau mwy rheolaidd a strwythuredig, byddwn yn:<br>• cyflwyno sesiynau ymgysylltu bord gron cyfnodol. Bydd y sesiynau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sefydliad a phartneriaid allweddol, megis, Gofal Sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a byddant yn canolbwyntio ar adolygu newidiadau diweddar a pharhaus i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Bydd sylwadau a gesglir yn cael eu cofnodi, eu dadansoddi'n thematig, a'u rhannu ag arweinwyr gwasanaethau perthnasol a grwpiau llywodraethu er mwyn cefnogi dysgu parhaus a llywio'r broses cynllunio gwasanaeth yn y dyfodol. | | |
| **Cynrychiolaeth gofal sylfaenol ym Mwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng** | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod safbwyntiau gofal sylfaenol yn cael eu hintegreiddio'n llawn i Fwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn | Medi 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A9 Er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth eang o bwysau galw a rhyngweithio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai sicrhau y cynrychiolir gofal sylfaenol ym Mwrdd Rhaglen Gwella y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng **(Arddangosyn 10)**. | Argyfwng er mwyn galluogi dealltwriaeth gynhwysfawr o bwysau a rhyng-ddibyniaeth y system.<br>Mae aelodaeth bresennol y bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth eang gan bartneriaid megis Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Llais, Gweithrediaeth y GIG, ac Awdurdodau Lleol. Cynrychiolir yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol gan ddau Uwch-swyddog Cyfrifol sy'n rhan o dîm arweinyddiaeth adrannol Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Hefyd, gwahoddir clinigwyr gofal sylfaenol sy'n ochri â mentrau trawsnewid i gymryd rhan.<br>Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall ymrwymiadau clinigol rheolaidd gyfyngu ar bresenoldeb a chyfraniad gan glinigwyr gofal sylfaenol sy'n ymarfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn:<br>• estyn gwahoddiad sefydlog i holl Arweinwyr Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, gan sicrhau cynrychiolaeth clinigol ehangach ar draws y ddaearyddiaeth<br>• adolygu'r broses o amserlennu a fformat cyfarfodydd y bwrdd er mwyn gwella hygyrchedd i gyfranogwyr gofal sylfaenol<br>• archwilio modelau eraill o ymgysylltu.<br>Bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Ch2 2025, a bydd effeithiolrwydd y | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gynrychiolaeth uwch hon yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn yn rhan o'r adolygiad o effeithiolrwydd blynyddol Bwrdd y Rhaglen. | | |
| **Gwerthuso manteision prosiect**<br>A10 Er mwyn cryfhau ei adroddiadau am y manteision a gyflawnwyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a'r defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau i wasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 10)**. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso'n gyson effaith a manteision prosiectau a ariennir ac a gyflawnir trwy Raglen Chwe Nod. Mae gwerthusiad clir a strwythuredig yn cefnogi gwelliant parhaus yn ogystal â sicrhau atebolrwydd am ddefnyddio adnoddau ac aliniad ag anghenion cleifion.<br>Ar hyn o bryd, mae panel cyn buddsoddi yn adolygu prosiectau strategol, lle mae tîm amlddisgyblaethol yn asesu cynigion a'u hatgyfeirio i'r Pwyllgor Gweithredol. Cefnogir y broses o gyflawni a gwerthuso prosiectau gan y tîm Trawsnewid a Chyflawni, mewn cydweithrediad ag arweinwyr clinigol.<br>Hefyd, mae hyfforddiant Gwella Ansawdd yn cael ei hyrwyddo ar draws gwasanaethau clinigol, a ddarperir gan y tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ac mae'n cynnwys methodolegau craidd megis cylch Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu.<br>Er mwyn cryfhau ein dull o adrodd manteision, byddwn yn:<br>• datblygu canllawiau clir ac ymarferol i staff ar sut i werthuso prosiectau gofal brys a gofal | Tachwedd 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| | mewn argyfwng, sy'n gydnaws ag arferion gorau ar gyfer gwireddu manteision a Gwella Ansawdd<br>• corffori offer a thempledi i gefnogi'r broses o gasglu data, mesur canlyniadau, ac adolygiadau ôl-weithredu<br>• sicrhau bod y canllawiau yn cael eu cyfathrebu a'u corffori drwy hyfforddiant Gwella Ansawdd.<br>Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu erbyn diwedd Ch3 2025, a bydd y broses o'u gweithredu yn cael ei monitro drwy Fwrdd Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. | | |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.